

Eisteddfod Yr Urdd Gobaith Cymru Sir Ddinbych 2020.
Beirniadaeth Cystadleuaeth 396 Rhyddiaeth BI 8 a BI 9
Pan es i am dro.
Beirinad Carol Roberts.

Daeth 5 darn o waith i law ac roedd yn bleser eu darllen nhw i gyd. Roeddwn yn siomedig bod cyn lleied o ymgeiswyr wedi cystadlu ar destun a ddylai fod wedi apelio.

Roedd pob ymgeisydd yn arddangos gafael dda ar eirfa a chystrawen a chafwyd defnydd cywir o batrymau iaith, defnydd o amser y ferf, ffurfiau mynegi barn addas a phob ymgeisydd wedi cynnwys idiomau ac ansodderiau i gyfoethogi eu gwaith ac i greu darluniau byw. Disgwyliwn iaith ac eirfa o fewn profiad ymgeiswyr BI8 a 9 ond heb fod yn hollol ddi wall ac felly roedd camgymeriadau teipio,treiglo a chystrawen chwithig yn ymddangos yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr. Wrth ystyried oedran yr ymgeiswyr, teimlwn ar adegau, bod gor ddrafftio wedi digwydd i waith rhai . Serch hynny, roedd safon yr iaith trwodd a thro yn plesio. Canmoladwy iawn oedd ymdrechion y cystadleuwyr ar y cyfan a chafwyd gwaith diddorol a gwreiddiol gan y goreuon.

Mae FLEUR DE LIS yn mynd am dro i Gaerdydd. Cafodd ddiwrnod prysur a llawn ac er mai braidd yn fyr oedd y gwaith roedd y mynegiant yn bur gywir a diddorol.

Aiff CI GWYN am dro llawn hud. Mae'n cyfarfod ei arwyr megis Alun Wyn Jones,George North a Kyra North i enwi rhai. Mae'n llwyddo i greu ei gyffro a dal diddordeb y darllenydd ac er bod gwallau yma ac acw, roedd safon y gwaith yn foddhaol o ran cynnwys a phatrymau brawddegol.

Cyflwynodd CATH PORFFOR stori llawn dychymyg oedd yn hoelio sylw'r darllenydd. Mewn breuddwyd mae hi'n cyfarfod Simon Cowell. Mae o'n gwranddo arni'n canu ac er syndod iddi "bwrwodd y botwm aur". Roedd y cynnwys yn uchelgeisiol ac efallai mai dyna pam fod gwallau yn ymddangos. Serch hynny rhaid canmol yr afael dda sydd ganddi ar amrywiaeth o batrymau iaith.

Wrth i SEREN AUR fynd am dro mae hi'n cyfarfod estronwr o wlad Glog. Mae gan yr estronwr y gallu i ragfynegi ei dyfodol a "dywedodd rhywbeth anhygoel.....bydd pawb yn siarad Cymraeg yn y dyfodol". Stori drefnus, llawn dychymyg. Roedd gwallau yn y gwaith ond eto cafwyd safon dda o ran amrywiaeth o eirfa a phatrymau brawddegol.

Dyddiadur dychmygol Dewi Sant wrth iddo ymweld â manau diddorol o gwmpas ardal Caerdydd heddiw a gawson ni gan Y GANTORES FACH. Dyma waith mwyaf swmpus a manwl y gystadleuaeth a'r diwyg tefnus a'r lluniau lliwgar yn tynnu sylw yn syth bin.Er bod y gwaith yn anghyson mewn manau , e.e. biti am y geiriau Saesneg ar y clawr a'r gwallau yma ac acw, dyma'r gwaith sy'n rhagori. Defnyddwyd amrywiaeth o batrymau iaith cynhwysfawr a geirfa eang i greu darluniau hyfryd o atyniadau Caerdydd. Hoffais yn arbennig y disgrifiadau a'r delweddau byw a gafwyd ganddi. Cyfanwaith safonol.

1af Y Gantores Fach. 396/5

2ail Cath Porffor. 396/3

3ydd Seren Arian. 369/1

Diolch i'r cystadleuwyr am eu hymdrechion a'u gwaith caled.